# PANEL HEDDLU A THROSEDDU DYFED POWYS

Dydd Gwener, 16 Chwefror 2018

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd A. Lloyd-Jones (Cadeirydd)

Aelodau o Gyngor Sir Caerfyrddin:
Y Cynghorwyr T.J. Jones a E. Morgan;

Aelodau o Gyngor Sir Ceredigion:
Y Cynghorwyr L. Edwards a K. Evans;

Aelodau o Gyngor Sir Penfro:
Y Cynghorydd R. Summons;

Aelodau o Gyngor Sir Powys:
Y Cynghorwyr D. Evans, L. George, a W. Powell;

Aelodau Annibynnol:-
Yr Athro I. Roffe;
Mrs. H.M. Thomas;

**Yn bresennol o Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu:-**
Mr. D. Llywelyn - Y Comisiynydd Heddlu a Throseddu;
Mrs. C. Morgans - Pennaeth y Staff;
Ms. B. Peatling - Prif Swyddog Ariannol;

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
R. Edgecombe, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
**Ystafell Pwyllgor 2, Neuadd y Sir, Llandrindod Wells - 11.00 am - 12.30 pm**

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**
Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr K. Howell (Cyngor Sir Caerfyrddin), M. James (Cyngor Sir Penfro) a S. Joseph (Cyngor Sir Penfro).

**2. DATGAN BUDDIANNAU**
Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol.

**3. CWESTIYNAU Â RHYBUDD GAN AELODAU'R PANEL I'R COMISIYNYDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)**
Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan Aelodau'r Panel.

**4. CWESTIYNAU Â RHYBUDD GAN AELODAU O'R CYHOEDD I'R COMISIYNYDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)**
Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

**5. CADARNHAU PENODIAD PRIF SWYDDOG ARIANNOL**
Dywedodd y Cadeirydd wrth y Panel fod eitem 5 ar agenda cyfarfod y diwrnod hwnnw yn ymwneud â rôl y Panel o ran cadarnhau penodiad gan Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys i swydd Prif Swyddog Ariannol. Er y byddai'r Panel yn cyfweld â'r ymgeisydd llwyddiannus, dywedodd taw'r unig beth y byddai'r

Panel yn gallu ei wneud oedd cadarnhau'r penodiad gan nad oedd gan y Panel bŵer i roi feto. Er hynny, os oedd yn briodol, gallai roi argymhellion/sylwadau ar y penodiad hwnnw i'r Comisiynydd.

Aeth y Panel ati i gyfweld â'r ymgeisydd llwyddiannus, Ms. B. Peatling, a oedd wedi ei phenodi'n Brif Swyddog Ariannol.

Ar hynny diolchodd y Cadeirydd i Ms. Peatling am ddod. Yn dilyn hyn, gadawodd y cyfarfod gyda chynrychiolwyr eraill y Comisiynydd Heddlu a Throseddu.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gadarnhau'r penodiad canlynol oedd wedi ei wneud gan Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys:**
**Ms. B. Peatling - Prif Swyddog Ariannol.**

Galwyd Ms. Peatling a chynrychiolwyr eraill y Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn ôl i'r cyfarfod er mwyn rhoi gwybod iddi am benderfyniad y Panel. Estynnodd y Cadeirydd longyfarchiadau iddi hi ar gael ei phenodi, a dymunodd bob llwyddiant iddi yn ei swydd.

## 6. PENDERFYNIADAU A WNAED GAN Y COMISIYNYDD

Cafodd y Panel adroddiad, er gwybodaeth, a oedd yn manylu ar benderfyniadau'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu ynghylch ailstrwythuro ei Swyddfa er mwyn sicrhau y rhoddir cefnogaeth effeithlon ac effeithiol iddo gyflawni ei gyfrifoldebau statudol.

Roedd y canlynol ymhlith y cwestiynau/materion a godwyd ynghylch yr adroddiad:-

- Mewn ymateb i sylw, dywedodd y Comisiynydd fod pob ymdrech yn cael ei gwneud i sicrhau bod y cyflenwyr a'r gwasanaethau yn cael eu caffael o fewn ardal Dyfed-Powys;
- dywedodd y Comisiynydd y byddai'n gwneud ei orau i fanteisio ar bob cyfle i hyrwyddo gwaith y Panel;
- estynnodd y Comisiynydd wahoddiad i'r Panel ymweld â'i swyddfeydd a'i staff pan fo hynny'n gyfleus;
- eglurodd y Comisiynydd y rhesymau dros benodi y Prif Swyddog Ariannol newydd yn rhan amser, a oedd yn cynnwys cael swyddog penodedig yn hytrach na rhannu'r swydd yn llawn amser gyda'r heddlu, oherwydd gallai gwrthdaro buddiannau godi.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.**

## 7. CYDYMFFURFIAETH O RAN Y RHEOLIAD DIOGELU DATA CYFFREDINOL

Rhoddwyd gwybod i'r Panel y byddai'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol yn dod i rym ym mis Mai 2018, yn lle gofynion y Ddeddf Diogelu Data. Cofrestrwyd Paneli Heddlu a Throseddu fel rheolwyr data ar wahân gyda'r Comisiynwyr Gwybodaeth ac felly mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â gofynion y Rheoliad. Roedd yn ofynnol i'r Panel weithredu mesurau sefydliadol a thechnegol priodol a oedd yn sicrhau ac yn dangos bod y Panel yn cydymffurfio â'r rheoliad. Mewn gwirionedd, nid oedd y Panel yn cadw neu brosesu unrhyw ddata personol ei hunan, ac roedd unrhyw weithgaredd o'r fath yn cael ei gyflawni drwy'r awdurdod cynnal. Roedd cofnodion y Panel yn cael eu cadw yn swyddfeydd yr Awdurdod hwnnw, a oedd yn cefnogi'r gwaith o weithredu gwefan y Panel.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fabwysiadu a gweithredu yn unol â pholisïau a gweithdrefnau Diogelu Data yr awdurdod cynnal, sy'n bodoli o dro i dro.**

| | |
|---|---|
| **CADEIRYDD** | **DYDDIAD** |